

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Crynodeb o Fil

Bil Casglu a Rheoli Trethi
(Cymru)

Medi 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



**Y Gwasanaeth
Ymchwil**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
cynulliad.cymru/Ymchwil

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Ymchwil@Cynulliad.Cymru
Twitter: [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 15/1752
Rhif dogfen:15/037

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Crynodeb o Fil

Bil Casglu a Rheoli Trethi
(Cymru)

Medi 2015

Richard Bettley ac Alys Thomas

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Gwasanaeth
Ymchwil

Cynnwys

Cyflwyniad	1
1. Cefndir y Bil	2
1.1. Datganoli pwerau treth.....	2
1.2. Ymgynghoriadau a phenderfyniadau Llywodraeth Cymru	2
2. Crynodeb o'r Bil	4
2.1. Amcanion Polisi'r Bil.....	4
2.2. Rhan 2: Awdurdod Cyllid Cymru	4
2.3. Rhan 3: Ffurflenni treth, ymholiadau ac asesiadau	5
2.4. Rhan 4: Pwerau Ymchwilio ACC	6
2.5. Rhan 5: Cosbau.....	7
2.6. Rhan 6: Llog.....	7
2.7. Rhan 7: Talu a Gorfodi	7
2.8. Rhan 8: Adolygiadau ac apeliadau	8
2.9. Rhan 9: Ymchwilio i droseddau.....	8
2.10. Rhan 10: Darpariaethau terfynol	9
3. Costau ac effeithiau'r bil	10
4. Ymateb i'r Bil	12
Atodiad A: Amserlen weithredu a ragwelir yn ôl y Memorandwm Esboniadol	15

Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru)

Cyflwyniad

Dyddiad cyflwyno: 13 Gorffennaf 2015

Yr Aelod sy'n Gyfrifol: Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

Pwyllgor y Cynulliad sy'n craffu ar y Bil yn ystod Cyfnod 1: Y Pwyllgor Cyllid

Dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno adroddiad Cyfnod 1: 27 Tachwedd 2015

Cafodd y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) ('y Bil') ei osod gerbron y Cynulliad ar 13 Gorffennaf 2015. Cyflwynwyd y Bil yn y Cyfarfod Llawn gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Jane Hutt ar 14 Gorffennaf 2015. Y Bil hwn yw'r cyntaf mewn cyfres a ragwelir o dri bil yn ymwneud â datganoli'r pwerau treth yn [Neddf Cymru 2014](#). Bydd y Bil hwn yn cael ei ddilyn gan ddeddfwriaeth treth benodol yn y Cynulliad nesaf i sefydlu'r ddwy dreth Gymreig newydd - Treth Trafodiadau Tir (a fydd yn disodli Treth Tir y Doll Stamp) a Threth Gwarediadau Tirlenwi.

1. Cefndir y Bil

1.1. Datganoli pwerau treth

Bydd Deddf Cymru 2014 yn datganoli rheolaeth dros Dreth Tir y Doll Stamp a Threth Tirlenwi i Lywodraeth Cymru - y disgwyliadau presennol yw y bydd hyn yn digwydd o 1 Ebrill 2018. Roedd hyn yn dilyn argymhellion a wnaed gan [Gomisiwn Silk](#). Er y bydd yr un Ddeddf hefyd yn datganoli elfen o dreth incwm i Gymru, yn amodol ar refferendwm, bydd Llywodraeth y DU yn parhau i fod yn gyfrifol am y system treth incwm ehangach a bydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn casglu'r elfen Gymreig ddatganoledig o dreth incwm yng Nghymru. Mae Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru), felly, yn ymwneud yn unig â chasglu a rheoli y ddwy dreth sydd wedi'u datganoli'n llawn, sef Treth Tir y Doll Stamp (y bydd yr hyn fydd yn ei disodli yng Nghymru yn cael ei galw yn y Dreth Trafodiadau Tir) a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Bydd manylion penodol y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi arfaethedig yn cael eu cynnwys mewn deddfwriaeth yn y dyfodol.

Gallai'r Bil fod yn berthnasol hefyd i unrhyw drethi Gymreig newydd sy'n cael eu creu yn y dyfodol, er bod [Papur Gorchymyn Bil Cymru](#) yn nodi y byddai angen i Senedd y DU gytuno i'r trethi hyn. Cyhoeddodd Sefydliad Bevan ym Mehefin 2015 y byddai'n dechrau prosiect naw mis i ystyried pa [drethi newydd posibl](#) y gellid eu cyflwyno yng Nghymru.

Ar sail data Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, mae [swyddogaeth Trysorlys Llywodraeth Cymru](#) yn amcangyfrif bod Treth Tir y Doll Stamp wedi codi rhwng £100 miliwn a £236 miliwn y flwyddyn yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae Treth Tirlenwi wedi bod yn fwy sefydlog ar £50 miliwn y flwyddyn yng Nghymru. Mae hyn tua 1-2 y cant o grant bloc Llywodraeth Cymru sef £15 biliwn, a bydd y grant bloc yn cael ei leihau i adlewyrchu graddau refeniw y trethi datganoledig. Felly, nid prif bwrpas datganoli elfen o drethiant i Gymru yw codi incwm ychwanegol, ond yn hytrach i wella atebolrwydd drwy gysylltu elfen dybiannol o wariant cyhoeddus â refeniw treth.

1.2. Ymgynghoriadau a phenderfyniadau Llywodraeth Cymru

I gyd-fynd â Phapur Gwyn Medi 2014: [Casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru](#), lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2014. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu crynhoi yn y Memorandwm Esboniadol ac ar [wefan](#) Llywodraeth Cymru. Roedd cefnogaeth eang ar gyfer:

- sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) a fyddai'n gweithredu'n annibynnol ar Weinidogion Cymru;
- cyflwyno Siarter i Drethdalwyr;

- y set graidd arfaethedig o ddyletswyddau ACC;
- y rhwymedigaethau arfaethedig ar drethdalwyr; a
- chytundeb cyffredinol y byddai angen i bwerau tebyg i'r rhai sydd ar gael i awdurdod treth y DU fod ar gael i ACC.

Mae materion a godwyd yn y papur Gwyn, ond nad ydynt yn y Bil yn cynnwys:

- sut i ddiffinio a gweithredu Rheol Gwrth Cam-drin Gyffredinol i gyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer cynlluniau osgoi treth. O'r ddwy dreth ddatganoledig, mae'r mater hwn yn fwyaf perthnasol i'r Doll Stamp, a rhagwelir y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniad ar ei pholisi pan fydd y bil hwnnw yn cael ei gyflwyno.
- dulliau amgen o ddatrys anghydfod gan ddefnyddio trydydd parti i helpu i ddatrys anghydfod treth. Mae hyn yn debygol o gael sylw ym mholisiau mewnol ACC.

Ar 30 Mehefin 2015 [cyhoeddodd](#) y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth y canlynol:

- Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yw'r partner a ffafrir ar gyfer casglu'r Dreth Trafodion Tir ar ran ACC;
- Bydd ACC yn ymgymryd â'r gwaith cydymffurfio, osgoi a gorfodi ar gyfer y Dreth Trafodion Tir;
- Bydd ACC yn casglu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn uniongyrchol; a
- Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymdrin â chydymffurfio a gorfodi ar ran ACC.

Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio bod yn rhaid i'r Bil Casglu a Rheoli Trethi gael ei ystyried yng nghyd-destun y ddau fil treth benodol fydd yn cael eu cyflwyno yn y Cynulliad nesaf. Daeth dau ymgynghoriad ar [y Dreth Trafodiadau Tir](#) a'r [Dreth Gwarediadau Tirlenwi](#) i ben ym mis Mai 2015, er nad yw unrhyw ymatebion wedi cael eu rhyddhau eto. Er bod yr ymgynghoriadau hyn yn archwilio polisiau amgen amrywiol nid ydynt yn cynnwys cynigion neu gostau manwl.

2. Crynodeb o'r Bil

2.1. Amcanion Polisi'r Bil

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n gysylltiedig â'r Bil yn nodi'r amcanion polisi a ganlyn ar gyfer y ddeddfwriaeth:

- Darparu fframwaith llywodraethu clir a chryf yng Nghymru a fydd yn cefnogi'r gwaith o gasglu a rheoli trethi datganoledig Cymru yn effeithiol ac yn effeithlon
- Sefydlu corff corfforaethol (Awdurdod Cyllid Cymru - ACC) i fod â chyfrifoldeb cyfreithiol am gasglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru.
- Rhoi pwerau a dyletswyddau priodol i ACC (a dyletswyddau a hawliau cyfatebol ar drethdalwyr ac eraill) mewn perthynas â dychwelyd ffurflenni treth a chynnal ymchwiliadau ac asesiadau.
- Pwerau ymchwilio a gorfodi sifil cynhwysfawr.
- Dyletswyddau ar drethdalwyr i dalu cosbau a llog
- Hawliau i drethdalwyr ofyn am adolygiadau mewnol o rai o benderfyniadau ACC ac i apelio i dribiwnlys
- Pwerau gorfodi troseddol

2.2. Rhan 2: Awdurdod Cyllid Cymru

Mae Rhan 1 yn rhestru cynnwys y Bil. Mae Rhan 2 yn sefydlu ACC, yn darparu ar gyfer aelodaeth ei fwrdd, yn disgrifio ei brif swyddogaethau, yn diffinio sut y gellir defnyddio gwybodaeth am drethdalwyr, ac yn caniatáu ACC i gychwyn achos llys. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod nifer o sefydliadau cyhoeddus sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru â strwythurau Bwrdd. Bydd union faint bwrdd ACC yn cael ei benderfynu gan y graddau y mae swyddogaethau'n cael eu dirprwyo.

Mae'n gwneud hyn drwy:

- (a2) Sefydlu corff corfforaethol a elwir yn Awdurdod Cyllid Cymru, y cyfeirir ato fel ACC yn y Bil.
- (a3-6) Ei gwneud yn ofynnol cael aelodau anweithredol o ACC a benodir gan Weinidogion Cymru, sef cadeirydd a 3-8 o bobl eraill. Mae rhai cyfyngiadau ar benodi a diswyddo aelodau. Aelodau'r weithrediaeth fydd y prif weithredwr ac 1-2 aelod o staff a enwebir gan ACC.
- (a7-10) Caniatáu ACC i greu ei bwyllgorau a'i is-bwyllgorau ei hun, i dalu aelodau'r pwyllgor, ac i gytuno ar ei weithdrefnau ei hun. Mae'n rhaid i ACC benodi Prif Weithredwr.
- (a11-12) Diffinio swyddogaethau penodol ACC - darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth ar drethi datganoledig i Weinidogion Cymru, trethdalwyr a phobl

eraill; datrys cwynion ac anghydfodau; hyrwyddo cydymffurfiaeth â chyfraith treth ac atal efadu ac osgoi talu treth.

- (a13-14) Caniatáu ACC i ddirprwyo unrhyw rai o'i swyddogaethau, a chaniatáu Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddiadau cyffredinol i ACC. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn glir y bydd ACC, mewn achos o ddirprwyo, yn parhau i gadw cyfrifoldeb cyfreithiol dros ei swyddogaethau.
- (a15-19) Ei gwneud yn ofynnol i ACC i drin gwybodaeth trethdalwyr yn gyfrinachol, gan ei datgelu mewn rhai amgylchiadau yn unig, a'i gwneud hi'n drosedd i ddatgelu gwybodaeth ar gam.
- (a20-21) Caniatáu ACC i ymgymryd ag achosion troseddol a sifil.
- (a22-24) Ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ariannu ACC, caniatáu ACC i dalu gwobrau (heb ei ddiffinio, ond tybir y byddant i hysbyswyr) mewn perthynas â'i swyddogaethau, ac yn ei gwneud yn ofynnol i ACC dalu derbyniadau i Gronfa Gyfunol Cymru ar ôl didynnu treuliau.
- (a25-34) Ei gwneud yn ofynnol i ACC gynhyrchu Siarter Safonau a Gwerthoedd (a elwir hefyd yn Siarter Trethdalwyr yn y Memorandwm Esboniadol) ar gyfer ACC a threthdalwyr, cynllun corfforaethol 3 blynedd, adroddiad blynyddol, cyfrifon archwiliedig a Datganiad Treth archwiliedig i'w cymeradwyo gan Weinidogion Cymru, ac i'w gosod gerbron y Cynulliad.

2.3. Rhan 3: Ffurflenni treth, ymholiadau ac asesiadau

Mae'r Rhan hon yn creu pwerau i ACC asesu lefel y trethi datganoledig i'w talu gan drethdalwyr, yn ei gwneud yn ofynnol i drethdalwyr gyflwyno ffurflenni, ac yn caniatáu ACC i bennu trethi i'w talu lle nad oes gwybodaeth yn cael ei darparu.

Mae'n gwneud hyn drwy:

- (a36-37) Ei gwneud yn ofynnol i drethdalwyr gadw cofnodion am gyfnodau penodol.
- (a38-40) Caniatáu i'r trethdalwr ddiwygio ffurflenni treth, neu i ACC gywiro gwallau amlwg.
- (a41-49) Caniatáu ACC i 'ymholi' ynghylch ffurflen dreth (hy gofyn cwestiynau i helpu nodi swm y dreth a phwy sy'n drethadwy), i ddiwygio ffurflen dreth i wneud iawn am unrhyw annigonolrwydd, ac i unrhyw gwestiwn gael ei gyfeirio at y tribiwnlys am benderfyniad.
- (a50-51) Caniatáu ACC i wneud 'penderfyniad' am y tâl treth lle nad oes ffurflen dreth yn cael ei chyflwyno, er y gall hyn gael ei ddisodli os yw'r unigolyn hwnnw yn cyflwyno ffurflen dreth maes o law.
- (a52-59) Caniatáu ACC i wneud asesiad o'r swm y dylid ei godi i wneud iawn am y golled o dreth ddatganoledig lle mae'r tâl treth gwreiddiol, y gostyngiad a hawliwyd neu'r dreth a ad-dalwyd yn anghywir.

- (a60-65) Caniatáu unigolyn i wneud cais am ostyngiad mewn achos lle ceir asesu dwbl (talu'r un dreth ddwywaith) neu lle talwyd gormod o dreth lle na ddylid fod wedi codi am y dreth ddatganoledig. Gall ACC wrthod cais am wahanol resymau fel 'cyfoethogiad anghyfiawn' lle nad yw cost y dreth a ordalwyd wedi cael ei hysgwyddo gan yr hawlydd.
- (a66-79) Ei gwneud yn ofynnol bod hawliadau am dreth a ordalwyd neu asesiad dwbl yn cael eu gwneud yn unol â'r gweithdrefnau yn y Bil.

2.4. *Rhan 4: Pwerau Ymchwilio ACC*

Mae'r Rhan hon yn rhoi pwerau i ACC gael mynediad i wybodaeth a dogfennau drwy bum math o 'hysbysiadau gwybodaeth', i archwilio adeiladau, ac i dynnu neu gopïo dogfennau at ddiben gwirio sefyllfa dreth trethdalwr.

Mae'n gwneud hyn drwy:

- (a81-89) Ei gwneud yn ofynnol i drethdalwyr a phobl eraill gydymffurfio â 'hysbysiad trethdalwr', 'hysbysiad trydydd parti' neu 'hysbysiad trydydd parti anhysbys' a gyhoeddwyd gan ACC i ddarparu gwybodaeth neu gynhyrchu dogfen. Mae angen i'r tribiwnlys gymeradwyo'r hysbysiadau hyn.
- (a90) Caniatáu ACC i ddyroddi 'hysbysiad adnabod' i gael gwybodaeth i alluogi canfod pwy yw unigolyn. Mae angen i'r tribiwnlys gymeradwyo'r hysbysiad hwn.
- (a91) Caniatáu ACC i ddyroddi 'hysbysiad cyswllt dyledwr' sy'n ei gwneud yn ofynnol i drydydd parti ddarparu manylion cyswllt ar gyfer unigolyn arall sydd mewn dyled treth.
- (a92-100) Gosod cyfyngiadau ar pryd fydd yr 'hysbysiadau gwybodaeth' uchod yn cael eu dyroddi, sut y cydymffurfir â hwy, a diogelu rhai mathau o gofnodion a chyfathrebu.
- (a101-109) Caniatáu ACC i archwilio adeiladau ac asedau mewn gwahanol ffyrdd, ac i fesur a phennu gwerth safleoedd eraill, yn amodol ar gymeradwyaeth y tribiwnlys.
- (a110-111) Caniatáu ACC i wneud copïau o ddogfennau a mynd â hwy i ffwrdd.
- (a112-114) Ei gwneud yn drosedd i guddio neu ddinistrio dogfennau yn dilyn hysbysiad gwybodaeth, neu yn dilyn cael gwybod bod hysbysiad gwybodaeth yn debygol o gael ei gynhyrchu. Yn ogystal, nid oes adolygiad neu apêl o gymeradwyaethau tribiwnlys ar gyfer dyroddi hysbysiadau gwybodaeth.

2.5. *Rhan 5: Cosbau*

Mae'r Rhan hon yn rhoi pwerau i ACC i ddyroddi amryw gosbau yn ymwneud â threthi datganoledig. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn glir y bydd ACC dim ond yn ceisio pwerau cosb sifil tebyg i'r rhai sy'n gymwys ar hyn o bryd yng Nghymru drwy Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o unrhyw gamau gorfodi yn digwydd drwy gyfundrefn cosb sifil.

Mae'n gwneud hyn drwy:

- (a115-121) Gwneud pobl yn agored i wahanol gosbau am fethu â chyflwyno ffurflen dreth o fewn terfynau amser penodol. Gall hyn gael ei leihau gan ACC os yw unigolyn yn datgelu gwybodaeth yn hwyrach.
- (a120-121) Gwneud pobl yn agored i gosb am fethu â thalu treth erbyn y dyddiad y cytunwyd arno, oni bai bod cytundeb gohirio.
- (a122-126) Ei gwneud yn ofynnol i ACC ystyried sut mae cosbau yn rhyngweithio, p'un ai i leihau cosbau mewn amgylchiadau arbennig, i ystyried esgusodion rhesymol ar gyfer lleihau cosbau, a sut y bydd cosbau yn cael eu casglu.
- (a127-140) Gwneud pobl yn agored i gosbau am gamgymeriadau, a disgrifio sut y mae'n rhaid i ACC gymhwyso'r cynllun cosb hwn.
- (a141-143) Gwneud pobl yn agored i gosbau sy'n ymwneud â chadw cofnodion, a disgrifio sut y mae'n rhaid i ACC gymhwyso'r cynllun cosb hwn.
- (a144-154) Gwneud pobl yn agored i gosbau sy'n ymwneud ag ymchwiliadau.

2.6. *Rhan 6: Llog*

Mae'r Rhan hon yn darparu ar gyfer codi llog ar symiau sy'n ddyledus i ACC a chanddo.

Mae'n gwneud hyn drwy:

- (a155-161) Diffinio sut y codir llog ar symiau sy'n ddyledus i ACC a chanddo, ac yn caniatáu i Weinidogion Cymru benderfynu ar y gyfradd.

2.7. *Rhan 7: Talu a Gorfodi*

Mae'r Rhan hon yn darparu ar gyfer adennill taliadau sy'n ddyledus i ACC, ac i adennill y rhain yn y llys ynadon.

Mae'n gwneud hyn drwy:

- (a162-168) Diffinio taliadau sy'n ddyledus i ACC a chaniatáu camau adennill a gorfodi gan ACC.

2.8. *Rhan 8: Adolygiadau ac apeliadau*

Mae'r Rhan hon yn darparu ar gyfer sefydlu adolygiadau yn erbyn penderfyniadau a wneir gan ACC, ac ar gyfer gwneud apeliadau i dribiwnlysoedd. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd system tribiwnlysoedd treth y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n bodoli eisoes yn cael ei defnyddio i sicrhau symrlwydd, sefydlogrwydd a sicrwydd.

Mae'n gwneud hyn drwy:

- (a169-170) Diffinio'r penderfyniadau hynny, y cyfeirir atynt yn y Bil fel "penderfyniadau apeliadwy" y gall unigolyn ofyn am adolygiad neu apelio mewn perthynas â hwy. Penderfyniadau apeliadwy yw penderfyniadau sy'n effeithio ar a yw unigolyn yn agored i dreth ddatganoledig, swm y dreth sy'n ddyledus a'r diwrnod erbyn pryd y mae'n rhaid ei thalu a phenderfyniadau am gosbau a dyroddi hysbysiadau gwybodaeth.
- (a171-175) Ei gwneud yn ofynnol gofyn am adolygiad yn y modd cywir, o fewn terfynau amser, ac y dylai ACC gynnal adolygiad a chyfathrebu amdano.
- (a176-79) Ei gwneud yn ofynnol gofyn am apêl yn y modd cywir, ac o fewn terfynau amser.
- (a180-182) Ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gosbau sy'n dilyn yr adolygiad neu'r apêl gael eu talu, a chaniatáu ACC i ymgymryd â 'chytundeb setlo' ar gyfer penderfyniadau apeliadwy.

2.9. *Rhan 9: Ymchwilio i droseddau*

Mae'r Rhan hon yn darparu ar gyfer ymestyn rhai pwerau ymchwilio troseddol (sydd ar gael i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi eisoes) i ACC. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai nifer bach yn unig o dramgwyddau troseddol a gafwyd mewn perthynas â'r ddwy dreth ddatganoledig yng Nghymru a Lloegr yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Bydd y Ddeddf yn darparu ymagwedd gyson tuag at orfodi troseddol yng Nghymru er mwyn sicrhau eglurder.

Mae'n gwneud hyn drwy:

- (a183) Cymhwyso rhannau o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 a Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 i ACC, gan roi pwerau i gadw pobl, i ddefnyddio grym rhesymol, ac i chwilio pobl, yn amodol ar amodau perthnasol.
- (a184) Cymhwyso rhannau o Ddeddf Elw Troseddau 2002 sy'n ymwneud ag iawndal sy'n daladwy gan ACC.
- (a185) Cymhwyso rhannau o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 i ACC, yn ymwneud â chaniatáu awdurdodi gwylidwriaeth a chudd-wybodaeth.

2.10. *Rhan 10: Darpariaethau terfynol*

Mae'r Rhan hon yn gwneud darpariaethau amrywiol yn ymwneud â diwygio'r Ddeddf, dyroddi rheoliadau o dan y Ddeddf a'r diffiniad o dermau penodol yn y Ddeddf.

Mae'n gwneud hyn drwy:

- (a186) Caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau canlyniadol i'r Ddeddf, neu ei diwygio.
- (a187) Ei gwneud yn ofynnol i unrhyw reoliadau o dan y Ddeddf gael eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
- (a188-189) Diffinio sut y bydd dyroddi hysbysiadau gan ACC, a darparu dogfennau i ACC, o dan y Ddeddf yn digwydd.
- (a190-193) Diffinio termau penodol yn y Ddeddf, yn darparu i'r Ddeddf ddod i rym y diwrnod ar ôl iddi gael Cydsyniad Brenhinol, ac yn darparu teitl byr.

3. Costau ac effeithiau'r bil

Er bod y Memorandwm Esboniadol yn cynnwys Asesiad o Effaith Rheoleiddiol, mae Pennod 6 o'r Memorandwm Esboniadol yn datgan bod y Bil yn ddarn o ddeddfwriaeth sy'n galluogi, felly nad oes angen gwariant uniongyrchol mewn perthynas ag ef. Bydd y penderfyniadau a fydd yn arwain at ymrwymïadau ariannol yn cael eu nodi yn y ddau fil treth-benodol (a'u Hasesiadau o Effaith Rheoleiddiol).

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ymgynghoriadau ar y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Tirlenwi newydd a fydd yn cynorthwyo â datblygu polisi. Bydd y penderfyniadau polisi hyn a'r penderfyniad ynghylch a ddylid dirprwyo rhai o swyddogaethau ACC yn gyrru'r costau manwl sy'n gysylltiedig â chasglu a rheoli'r trethi hyn. Bydd y costau hyn yn dod yn gliriach yn nes at y dyddiad gweithredu, sef Ebrill 2018.

Ar 30 Mehefin 2015 [cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid](#) mai dewis ddarparwr Llywodraeth Cymru i gasglu'r trethi datganoledig oedd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Dywedodd y datganiad hefyd y byddai'r amcangyfrifon cost cychwynnol ar gael yn ystod hydref 2015:

Cyn y ddadl Cyfnod 1 yn yr hydref, byddaf yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith yr ydym wedi ei wneud i sefydlu trefniadau casglu a rheoli i'r Cynulliad. Bydd hyn yn cynnwys amcangyfrifon cychwynnol o gostau sefydlu a gweithredu. Caiff hyn ei lywio gan drafodaethau manwl ynghylch trefniadau partneriaethau gyda HMRC a CNC yn ystod y misoedd nesaf, ac yn cynnwys amcangyfrifon cychwynnol o'r costau sefydlu a gweithredu.

Mae'r Asesiad o Effaith Rheoleiddiol yn datgan ei bod yn anodd darparu amcangyfrif cadarn o gostau sefydlu a rhedeg ACC ar hyn o bryd. Fodd bynnag, y bwriad yw recriwtio Prif Weithredwr i ACC yn ystod hydref 2016, a disgwylir i hyn gostio **£50,700** ar gyfer 2016-17 a **£101,400** ar gyfer 2017-18.

Yn ogystal â chostau ACC, mae'r Asesiad o Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi codi **£1 filiwn** ar gyfer 'dileu' casglu'r ddwy dreth datganoledig yn yr Alban. Amlygodd [Papur Gorchymyn Bil Cymru](#) y gallai tâl o'r fath fod yn daladwy yng Nghymru. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y disgwylir i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi hefyd ad-dalu i Lywodraeth Cymru y costau mewn perthynas â pheidio â chasglu'r trethi datganoledig - y swm cyfatebol yn yr Alban oedd **£275,000**.

Er mwyn rhoi syniad bras o raddfa bosibl y costau, mae'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys manylion am gostau gweithredu a rhedeg cynnar Revenue Scotland. Mae hyn yn cael ei weld fel sefydliad cymharol sy'n darparu gwasanaethau casglu a rheoli treth tebyg.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y gymhariaeth hon yn awgrymu costau i'r ACC o:

- Costau sefydlu o oddeutu £800,000 yn 2016-17
- Costau sefydlu o £4.3 miliwn i £ 4.4 miliwn yn 2017-18
- Costau sefydlu o £4.3 miliwn i £ 4.4 miliwn yn 2018-19
- Costau parhaus o oddeutu £2.9 miliwn y flwyddyn o 2019-20.

Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi y gallai'r costau cyfatebol ar gyfer ACC fod yn wahanol am resymau amrywiol fel maint llai ACC o'i gymharu â Revenue Scotland.

Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn cynnwys trafodaeth naratif o'r costau posibl ac effeithiau'r bil ar archwilio allanol, mynediad at gyfiawnder, busnesau a chyrrff cyhoeddus eraill. Nid yw'n darparu unrhyw symiau pellach ar wahân i amcangyfrif o £20,000 i £70,000 yn flynyddol ar gyfer archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru o'r Datganiad Treth.

4. Ymateb i'r Bil

Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol, Jane Hutt AC, mewn datganiad i'r [Cyfarfod Llawn](#), fod y Bil yn mynd i'r afael â thair uchelgais eang:

Yn gyntaf, rwy'n siŵr y byddai'r Cynulliad cyfan yn cytuno bod cyflwyno'r Bil hwn yn bennod bwysig arall yn hanes datganoli yng Nghymru. Mae'r Bil yn ganlyniad i lawer o waith gan lawer o bobl yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, yn ogystal â'n partneriaid cymdeithasol, ac rwyf wedi ceisio sicrhau adlewyrchiad o safbwyntiau ar draws y Siambr hon. Yn ei hanfod, mae'n cynrychioli ein hymrwymiad ar y cyd i Gymru hunanhyderus a mwy llewyrchus. Hon fydd y ddeddfwriaeth treth ddatganoledig gyntaf y mae'r Cynulliad wedi'i hystyried, a bydd yn paratoi'r ffordd ar gyfer creu trethi datganoledig newydd i Gymru yn lle treth dir y dreth stamp a'r dreth dirlenwi o fis Ebrill 2018.

Ond mae hwn hefyd yn amser pwysig i'r Deyrnas Unedig. I adleisio araith ddiweddar y Prif Weinidog, mae diwygio ariannol er budd pennaf y DU. Mae rhinweddau amlwg i'r gallu i wahanol rannau o'n hundeb benderfynu ar y cydbwysedd rhwng lefelau trethiant a lefel yr adnoddau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus i ymateb i anghenion a dewisiadau dinasyddion.

Yn ail, mae ein hymagwedd tuag at y Bil hwn, a'r gwaith paratoi ar ddatblygu cynigion ar gyfer y trethi datganoledig, yn tanlinellu ymrwymiad y Llywodraeth i weithio gyda busnesau i greu economi o'r radd flaenaf, a gefnogir gan system o wasanaethau cyhoeddus o'r radd flaenaf. Dyna pam, wrth ddatblygu'r trefniadau trethu ar gyfer Cymru, yr wyf wedi mynd ar drywydd yr egwyddorion canlynol: tegwch, symlrwydd, cefnogi swyddi a thwff, a sefydlogrwydd a sicrwydd. Credaf fod y Bil yn diogelu'r egwyddorion hyn.

Er mwyn cynnig arweiniad i ni wrth ddatblygu ein polisi a gosod safonau ar gyfer sut y gallai awdurdod treth weithredu, mae Llywodraeth Cymru wedi edrych ar brofiad Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a Revenue Scotland, ynghyd ag ystyried arferion gorau rhyngwladol ehangach. Rydym yn cydnabod bod busnesau a threthdalwyr yng Nghymru yn haeddu system o drethiant sy'n sylfaenol syml a thryloyw. Bydd dull o'r fath yn helpu i leihau'r baich ar drethdalwyr ac yn helpu i sicrhau cydymffurfiaeth o ran treth. Rydym hefyd yn cydnabod manteision cysondeb. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymwahanu, ac ni fydd yn ymwahanu, o brosesau casglu treth bresennol y DU oni bai bod rheswm da dros wneud hynny.

Yn drydydd, ac yn olaf, mae'r Bil yn diogelu ein hymrwymiad i degwch sydd yn ganolog i Lywodraeth Cymru. Rhaid i drethiant fod yn deg, i'r rhai sy'n ei dalu ac i'r gymdeithas ehangach sy'n elwa ar y gwasanaethau y mae'r trethi yn eu cefnogi, a dyna pam mae'r Bil yn cynnwys y gofyniad i'r awdurdod baratoi siarter o safonau a gwerthoedd, ac i'r awdurdod ymgynghori arni cyn ei gosod gerbron y Cynulliad. Mae'r Bil hefyd yn darparu i drethdalwyr allu gofyn am adolygiadau mewnol o benderfyniadau penodol yr awdurdod ac i apelio i'r tribiwnlys haen gyntaf yn erbyn penderfyniadau o'r fath.

Dywedodd llefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Nick Ramsey AC:

A gaf i ofyn i chi yn gyntaf—ac mae'n rhaid gofyn hyn bob amser ar gychwyn y broses o gyflwyno'r Biliau hyn—a oes angen y Bil hwn mewn gwirionedd? A oes wir angen awdurdod refeniw Cymru arnom ni? Pa mor agos ydych chi wedi gwrandao ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad? Nodaf fod nifer o sefydliadau a wnaeth ymateb yn cwestiynu'r angen am yr awdurdod newydd yn y ffordd yr ydych chi wedi ei gynnig. Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno nad ydym am unrhyw gwangos diangen, felly pa mor sicr ydych chi fod angen awdurdod refeniw

Cymru? Os mai'r ateb yw 'oes', fel yr wyf yn dychmygu—byddwn yn synnu pe bai fel arall—'oes', mae'n bendant angen rhyw fath o asiantaeth arnom, rhyw fath o gorff neu ryw fath o fecanwaith i wneud y gwaith hwn, yna a yw'r awdurdod refeniw Cymru yr ydych yn ei gynnig yn wir mynd i'r afael ag anghenion trethdalwyr a busnesau, yn gyntaf ac yn bennaf, ac nid dim ond yn gyfrwng sy'n fformat oddi ar y silff, gyda'r cadeirydd a'r aelodau arferol a'r holl drimins, ac sy'n gyfleus i Lywodraeth Cymru?

Atebodd y Gweinidog:

Rwy'n meddwl bod eich pwynt yn bwysig o ran diben y Bil hwn. Mae'n ymwneud â sicrhau bod y Bil yn sefydlu awdurdod refeniw Cymru, a fydd yn casglu ac yn rheoli trethi datganoledig, a sicrhau bod gan awdurdod refeniw Cymru'r pwerau priodol hynny a'r ddyletswydd i nodi a chasglu'r swm priodol o dreth ddatganoledig sy'n ddyledus gan drethdalwyr. Drwy'r ymgynghoriad—ac rydych wedi edrych ar hyn yn ofalus, rwy'n gwybod, o ran cefnogi busnesau—mae llawer busnes wedi pwysleisio, er enghraifft, yr angen i drethi a threfniadau gweinyddu fod yn gyson ar y ddwy ochr i'r ffin. Felly, ein hymagwedd ni, fel yr wyf wedi'i ddweud, yw peidio â newid y prosesau gweinyddol presennol yng Nghymru onid oes rhesymau yn ymwneud ag effeithlonrwydd, effeithiolrwydd neu flaenoriaethu dros wneud hynny, a hefyd i chwilio am y cyfle i gael sicrwydd a sefydlogrwydd—unwaith eto, egwyddor bwysig o ran ein trethi newydd yng Nghymru. Felly, rydym wedi defnyddio deddfwriaeth treth y DU a'r Alban fel man cychwyn ar hyd a lled y DU oherwydd busnesau trawsffiniol, a hefyd i sicrhau ein bod yn dysgu oddi wrth, er enghraifft, brofiad yr Alban o sefydlu trethi datganoledig i gymryd lle treth dir y dreth stamp a'r dreth dirlenwi.

Dywedodd Alun Ffred Jones AC Plaid Cymru:

[...] fe wnaeth y Gweinidog gadarnhau ei bod yn sefydlu swyddogaeth trysorlys yn ei hadran, ac y byddai'n ymgymryd ag ystod o waith gan gynnwys gweithredu'r awdurdod refeniw Cymreig, ond hefyd goruchwyllo cyllid arloesol, buddsoddi er mwyn arbed a rhagfynegi economaidd. Rydym ni wedi croesawu hyn yn frwd. Felly, a wnaiff y Gweinidog sicrhau—neu sut bydd y Gweinidog yn sicrhau—fod gan yr awdurdod refeniw yr ystod briodol o arbenigedd ac y caiff hyn ei gysylltu â sefydlu swyddogaeth trysorlys y Llywodraeth?

Atebodd y Gweinidog:

[...]o ran eich pwyntiau a'ch cwestiynau yn ymwneud â'r berthynas rhwng datblygiad y gwaith arbenigol a swyddogaeth trysorlys Cymru a sut y bydd hynny'n cael ei ddarparu, ac, wrth gwrs, yn cael ei gysylltu â gwaith awdurdod refeniw Cymru o ran llywio Gweinidogion wrth ddatblygu polisi treth, rwy'n cydnabod eich pwyntiau am y ffaith y byddwn wedyn yn gorfod cael ein harwain wrth ddatblygu polisi treth. Yn ogystal, bydd rhagolygon cadarn, nad ydynt, fel y dywedwch, yn cysylltu â'r cofnod o ystadegau economaidd a drafodwyd gennym yn fwyaf diweddar, ond sy'n edrych ar y rhagolygon o ran darogan y dreth ddatganoledig sy'n dod atom o fis Ebrill 2018. Cydnabyddir hefyd bwysigrwydd yr arbenigedd sydd yn rhaid ei ddatblygu yn nhrysorlys Cymru er mwyn llywio Llywodraeth Cymru a'r rhai sy'n mynd i fod yn darparu'r trethi newydd hynny.

Dywedodd Peter Black AC (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru):

[...]mae'r Bil yn darparu i Weinidogion wneud rheoliadau mewn cysylltiad â phwerau a nodir yn Neddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, y gall yr awdurdod eu defnyddio wrth ymchwilio i droseddau treth. Mae hefyd yn diwygio Deddf Elw Troseddau 2002, fel y gall staff dynodedig yr awdurdod wneud ceisiadau o dan y ddeddfwriaeth arbennig honno, ac, wrth gwrs, mae hefyd yn diwygio Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 i roi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddynodi bod staff yr awdurdod drwy Orchymyn yn gallu arfer pwerau penodol Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000. A gaf i ofyn i chi pa broses o oruchwyliaeth fydd yn cael ei rhoi ar waith i fonitro'r defnydd o'r pwerau hyn, a pha lefel o awdurdod fydd yn cael ei defnyddio i sicrhau bod y pwerau hynny yn cael eu harchwilio a'u dyrannu yn briodol, a pha rôl benodol fydd gan y Cynulliad o ran craffu ar y defnydd o'r pwerau hynny?

Atebodd y Gweinidog:

O ran perthynas awdurdod refeniw Cymru â'r Cynulliad, bydd y Cynulliad yn ei oruchwyllo'n llawn, fel yr wyf wedi'i ddweud, o ran sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu awdurdod refeniw Cymru. Bydd awdurdod refeniw Cymru yn cael ei nodi ar wahân yn y gyllideb, fel yr wyf wedi'i ddweud, ac, wrth gwrs, mae hynny'n cynnwys cyfrifon blynyddol, adroddiad blynyddol, datganiad treth blynyddol, cynllun corfforaethol, a siarter o safonau a gwerthoedd, a fydd yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad. Nid yw'r Bil yn pennu sut y dylai'r Cynulliad graffu ar yr awdurdod, ond mae'r rheiny yn drefniadau i'r Cynulliad eu penderfynu.

Atodiad A: Amserlen weithredu a ragwelir yn ôl y Memorandwm Esboniadol

Yn amodol ar gymeradwyo'r Bil gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Chydsyniad Brenhinol dilynol, mae'r cerrig milltir gweithredu a ragwelir fel a ganlyn:

- Penderfyniad ar y model gweithredu ar gyfer casglu a rheoli Treth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi - mis Mehefin 2015
- Cydsyniad Brenhinol - rhagwelir ym mis Ebrill 2016
- Ymgynghoriad ar is-ddeddfwriaeth - Haf 2016
- Penodi Prif Swyddog Gweithredu dros dro ACC Hydref 2016
- Is-ddeddfwriaeth - i'w chwblhau erbyn Gwanwyn 2017
- Penodi Cadeirydd ACC - Hydref 2017
- Penodi aelodau anweithredol y Bwrdd - Gaeaf 2017
- Ymgynghoriad ar ganllawiau treth drafft - Gaeaf 2017/18
- Ymgynghoriad ar y Siartr Trethdalwyr - Gaeaf 2017/18
- Cyhoeddi Cynllun Corfforaethol ACC - Gwanwyn 2018
- Dyddiad y rhagwelir y bydd ACC yn mynd yn fyw - ar neu cyn Ebrill 2018

